# Panel Cadeiryddion

# Cofnodion (POC(2)-04-05)

Dyddiad y cyfarfod: 24 Mai 2005

Amser y cyfarfod: 17:10 - 17:55

Lleoliad y cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 2

## Aelodau'r Cynulliad yn Bresennol

| Aelod Cynulliad | Pwyllgor |
|---|---|
| Yr Arglwydd Elis-Thomas AC, Llywydd (Cadeirydd) | |
| Peter Black AC | Addysg a Dysgu Gydol Oes |
| Rosemary Butler AC | Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon |
| Janice Gregory AC | Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio |
| Chris Gwyther AC | Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth |
| Ann Jones AC | Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus |
| Alun Ffred Jones AC | Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad |
| David Melding AC | Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Janet Davies AC | Archwilio |
| Gwenda Thomas AC | Cyfle Cyfartal |
| Sandy Mewies AC | Materion Ewropeaidd ac Allanol |

## Swyddogion yn Bresennol

| Enw | Teitl swydd |
|---|---|
| Paul Silk | Clerc y Cynulliad |

| | |
|---|---|
| Karin Phillips | Pennaeth Gwasanaethau'r Pwyllgorau ac Ymchwil yr Aelodau |
| Gwen Parry | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfathrebu'r Cynulliad |
| Peter Jones | Cwnsler Pwyllgorau'r Cynulliad |
| Adrian Green | Uwch Swyddog Seneddol Gweithredol, Swyddfa'r Llywydd |
| Lara Date | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

## Eraill yn Bresennol

| Enw | Sefydliad |
|---|---|
| Jeremy Colman | Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru |
| Ian Summers | Swyddfa Archwilio Cymru |

### Eitem 1: Cyflwyniad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

1.2 Tynnodd Jeremy Colman, Archwilydd Cyffredinol Cymru, sylw'r panel at bwyntiau allweddol ym mhrotocol drafft Swyddfa Archwilio Cymru, sef 'concerning consultation on the work to be undertaken and the handling of reports published by the Auditor General for Wales', yn arbennig:

- bod y protocol yn angenrheidiol i nodi'n glir pa swyddogaethau Swyddfa Archwilio Cymru sy'n berthnasol i lywodraeth leol a chyrff y GIG yn ogystal â llywodraeth ganolog;
- paragraffau 28 a 29 sy'n nodi'r broses ar gyfer cynhyrchu a chlirio adroddiadau drafft dros dro ac adroddiadau terfynol i sicrhau bod y ffeithiau a nodir mewn adroddiadau yn gywir, yn deg ac yn rhesymol. Ymdrinnir â phryderon ynglyn ag achosion posibl o adroddiadau'n dod yn hysbys drwy gyfyngu ar y broses o ddosbarthu copïau drafft i Swyddog Cyfrifyddu y corff dan sylw a chyfyngu ar y broses o'u dosbarthu i drydydd partïon. Nododd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio bwysigrwydd y Swyddog Cyfrifyddu'n cymeradwyo adroddiadau a dangoswyd hyn yn ddiweddar pan anghytunodd tystion ag elfennau adroddiad.
- paragraffau 40 a 41 sy'n nodi rôl bosibl pwyllgorau pwnc wrth ystyried adroddiadau. Nid oedd y protocol yn cyfeirio'n benodol at y cysylltiad rhwng Pwyllgorau Pwnc a'r Pwyllgor Archwilio er mwyn sicrhau bod yr olaf wedi cwblhau ei ystyriaethau, ond roedd Adran 102 Deddf Llywodraeth Cymru yn nodi'n glir y rhoddir blaenoriaeth i'r Pwyllgor

Archwilio wrth ystyried adroddiadau cyn y Pwyllgorau Pwnc. Nodwyd bod Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi rhoi tystiolaeth i un Pwyllgor Pwnc yn ddiweddar ac y byddai'n falch o wneud hynny yn y dyfodol. Nodwyd hefyd y cafwyd problemau yn y gorffennol o ganlyniad i ofyn i Weinidogion roi sylwadau ar adroddiadau cyn iddynt gael eu hystyried gan y Pwyllgor Archwilio.

1.3 Cadarnhawyd bod y protocol wedi cael ei ddiwygio i ystyried cais y Pwyllgor Archwilio am iaith sy'n niwtral o ran y rhywiau.

## Eitem 2: Cofnodion y cyfarfod diwethaf ar 19 Ebrill 2005

2.1 Cymeradwyodd y Panel gofnodion y cyfarfod blaenorol i'w cyhoeddi.

Camau i'w cymryd: Yr Ysrifenyddiaeth i gyhoeddi'r cofnodion terfynol ar y fewnrwyd.

## Eitem 3: Materion yn codi

3.1 Nodwyd cynnydd ar y camau a gododd o gyfarfodydd blaenorol.

## Eitem 4: Eitemau'r Cadeiryddion

4.1. Eglurodd Cadeirydd y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes fod y Pwyllgor am graffu ar waith y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, efallai drwy ddefnyddio is-bwyllgor craffu, ar gyllideb y Cynulliad gan fod cyfran fawr o'r cyllid ar gyfer addysg wedi'i gynnwys yn setliad llywodraeth leol. Cydnabyddodd y Cadeirydd fod Rheol Sefydlog 9.13 yn caniatáu i'r Gweinidog gael ei wahodd ond nid oedd y Pwyllgor am wrthdaro â gwaith Pwyllgorau eraill heb fod eisiau, sef y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus. Cytunwyd gadael i'r Gweinidog benderfynu p'un ai derbyn y gwahoddiad ai peidio. Pe byddai'r Gweinidog yn gwrthod y gwahoddiad, opsiwn arall fyddai cynnal cyfarfod ar y cyd rhwng y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes a'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus. Cafwyd trafodaeth fer ar y ffyrdd y deliodd pwyllgorau eraill â materion a oedd yn berthnasol i sawl portffolio yn cynnwys cyfarfodydd ar y cyd neu wahodd cyfraniad gan Aelodau o’r Pwyllgorau perthnasol eraill.

4.2 Cadarnhaodd Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cyhoeddus ei fod wedi ysgrifennu at Gadeiryddion Pwyllgorau a oedd wedi cymryd rhan yn y cyfarfod ar y cyd i ystyried adroddiad blynyddol y Comisiynydd Plant, i godi materion perthnasol y mae'n bosibl y byddai'r Pwyllgorau hynny eu hystyried.

4.3 Mynegodd y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ddiddordeb mewn cymryd rhan yn y sesiwn hyfforddi cyntaf ar graffu os oedd modd dod o hyd i ddyddiad addas.

4.4 Cymeradwyodd y Panel mewn egwyddor achos busnes gan y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon ar gyfer teithio i'r Alban.

4.5 Bydd y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol yn ymweld â'r Eisteddfod Genedlaethol yn Llangollen ym mis Gorffennaf, ond ni chadarnhawyd y costau hyd yn hyn.

## EITEMAU I'W CYFLWYNO

## Eitem 5: Sylw i'r Pwyllgorau yn y Cyfryngau

5.1 Croesawodd y Panel y sylw a gafodd y Pwyllgorau yn ystod mis Ebrill, yn cynnwys cydnabod Aelodau'r Pwyllgor fel 'arbenigwyr' yn eu maes yn y cyfryngau.

## Eitem 6: Cyfarfodydd Pwyllgorau yn adeilad newydd y Cynulliad.

6.1 Trafododd y Pwyllgor y papur. Nodwyd bod staff cofnod y trafodion yn San Steffan yn eistedd mewn 'pant' yn y canol a oedd yn osgoi amharu ar fusnes y cyfarfod. Fodd bynnag, cadarnhawyd na fyddai hyn yn bosibl yng nghynllun yr adeilad newydd.

6.2 Hysbyswyd y Panel y byddai'r cyhoedd sy'n mynychu Cyfarfodydd Llawn yn gallu newid sianeli ar y sgriniau bach sydd wedi'u lleoli o flaen seddi yn yr oriel gyhoeddus, i edrych ar gyflwyniadau clyweled neu drafodion gwahanol Bwyllgorau. Bydd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfathrebu'r Cynulliad yn cadarnhau p'un a fydd yr un cyfleusterau a fyddai ar gael ar gyfer oriel gyhoeddus y Siambr ar gael yn yr oriel gyhoeddus ar gyfer y Pwyllgorau.

6.3 Roedd y Panel yn awyddus i sicrhau bod y trefniadau ar gyfer gwylio trafodion y Pwyllgor, cyflwyniadau clyweled ac ati drwy'r sgriniau bach yn gwbl hygyrch i'r rheini sydd â nam ar eu golwg neu ar eu clyw, a bod materion cydraddoldeb (e.e. trefnu dehonglydd Iaith Arwyddion Prydain ar gyfer ymwelydd anabl) wedi'u hystyried. Gan fod yna oblygiadau o ran materion yn ymwneud â mynediad i'r gangen Rheoli Cyfleusterau yn ogystal â Gwasanaethau Cyfathrebu'r Cynulliad, byddai Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfathrebu'r Cynulliad yn adrodd yn ôl i'r Panel. Gofynnodd y Clerc i Aelodau'r Panel dynnu sylw Cydgysylltydd Mynediad Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad at unrhyw faterion yn ymwneud â mynediad yn y dyfodol.

Camau i'w cymryd:

- Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfathrebu'r Cynulliad i gyflwyno adroddiad yn ystod cyfarfod nesaf y Panel ar drefniadau o ran mynediad cyhoeddus ar gyfer trafodion Pwyllgorau ac ar ba mor ymarefrol yw arddangosfeydd clyweled.
- Hysbysu Cadeiryddion cyn gynted â phosibl o ddyddiadau ar gyfer hyfforddiant a/neu sesiwn friffio ar gynnal pwyllgorau yn yr adeilad newydd.

6.4 Trafoddodd y Panel y dylai pob aelod o staff sy'n gweithio yn y Cynulliad, yn arbennig y rheini sydd yn llygad y cyhoedd, edrych yn daclus ac yn dwt. Er na allai telerau ac amodau gweision sifil orfodi gwisg briodol roedd disgwyl y byddai staff yn gwisgo 'dillad busnes' priodol. Nodwyd bod gofynion o ran gwisg wedi'u cynnwys yn y contract newydd ar gyfer darlledwr y Cynulliad.

## EITEMAU I'W TRAFOD

## Eitem 7: Parhad busnes/cynllunio ar gyfer argyfwng - goblygiadau ar gyfer Pwyllgorau

7.1 Nododd y Panel y papur.

## Eitem 8: Unrhyw fater arall

8.1 Nid oedd unrhyw fater arall.

**Gwasanaethau'r Pwyllgorau ac Ymchwil yr Aelodau**
**Mai 2005**